YR EGLWYS YNG NGHYMRU THE CHURCH IN WALES

Adroddiad Arolwg Adran 50 Ysgolion yr Eglwys yng Nghymru

Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Trallwng

Ffordd Salop,
Y Trallwng
SY21 7FA

Esgobaeth: Llanelwy

Awdurdod lleol: Powys
Dyddiad yr arolygiad: 30 Medi 2026
Dyddiad yr arolygiad diwethaf: Amherthnasol
Rhif cyfeirnod unigryw'r Ysgol:
Pennaeth: Mrs Lorna Tuffin
Enw'r arolygydd: Y Parchg Ddr Kevin Ellis

Cyd-destun yr ysgol

Sefydlwyd Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Trallwng yn 2017 yn dilyn uno 4 ysgol, ag un ohonynt yn unig yn ysgol eglwysig ddynodedig. Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchiad ar y presennol ond hefyd ar y daith arwyddocaol yr aed arni dros y 9 mlynedd diwethaf.

Mae'r ysgol yn gwasanaethu tref y Trallwng. Mae'n ysgol cyfrwng Saesneg. Ar hyn o bryd, mae gan yr ysgol 262 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae cymuned yr ysgol yn dathlu amrywiaeth lleol, gyda 27% o ddysgwyr yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Ymhlith y disgyblion o oedran ysgol statudol, mae 23% yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r ysgol yn amgylchedd dysgu cynhwysol gyda 16% o ddysgwyr wedi'u nodi fel rhai sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Mae'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru'n cael eu gwerthfawrogi a'u clodfori ar draws yr ysgol fel y gwelir mewn gwersi, arddangosfeydd a gwaith y Criw Cymraeg.

Natur unigryw ac effeithiolrwydd Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Trallwng fel ysgol yr Eglwys yng Nghymru

Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Trallwng yn ysgol gynhwysol a chroesawgar sydd wedi'i gwreiddio yn ei chymuned leol. Mae ei gweledigaeth gyffredinol o ddod â'r gorau allan o'i gilydd yn rhywbeth sy'n cael ei rannu a'i fynegi gan yr holl randdeiliaid. Mae wedi'i gwreiddio yn y daith uno yr aed arni yn y gorffennol diweddar ac sydd yn fyw wrth i'r ysgol barhau â'i thaith fel ysgol eglwysig

falch. Mae tri gwerth allweddol yn sail i'r weledigaeth gyffredinol, sef: Parch, Dyfalbarhad a Darganfod. Mae'r rhain yn gysylltiedig â gwerthoedd Cristnogol a gyhoeddwyd gan Esgobaeth Llanelwy. Maent yn cael eu hadolygu bob blwyddyn.

Mae perthnasoedd ar bob lefel yn yr ysgol yn llifo allan o ymrwymiad i onestrwydd ac agoredrwydd. Mae hyn yn ategu rhyngweithio â disgyblion, ymhlith staff, gydag eglwys y plwyf ac eglwysi eraill yn yr ardal, rhieni, ac asiantaethau eraill. Mae'r ysgol yn cydnabod y daith y maent wedi bod arni wrth ffurfio ysgol Eglwysig newydd. Gall y pennaeth, staff a llywodraethwyr fod yn haeddiannol falch o'r hyn y maent wedi'i gyflawni fel ysgol eglwysig mewn amser cymharol fyr. Mae'n amlwg mai plant yw canolbwynt popeth y mae'r ysgol yn ei wneud. Mae'n ymddangos bod staff yn mynd yr ail filltir i'w dysgwyr, ac mae hyn yn cael ei fodelu gan y pennaeth, y llywodraethwyr a'r staff. Mae hyn yn rhywbeth y mae dysgwyr a'u rhieni/gofalwyr yn barod iawn i gydnabod eu bod yn ei werthfawrogi. Wrth wraidd hyn, mae awydd parhaus i fod yn ysgol sydd wedi'i gwreiddio neu'n hymgnawdoli yn y gymuned leol. Mae staff yn dweud eu bod yn 'adnabod y gymuned.' Mae'r rhan fwyaf o rieni yn cytuno bod yna deimlad llethol eu bod yn 'rhan o'r ysgol'.

Mae dysgwyr yn siarad yn hyderus am eu hysgol yn rhan o deulu'r Eglwys. Mae addoli ar y cyd yn cael ei fwynhau ac mae dysgwyr yn gwerthfawrogi mewnbwn y ficer yn ogystal â chlerigwyr ac aelodau eglwysi o enwadau eraill. Ar draws yr ysgol, mae arwyddion clir a gweladwy ei bod yn ysgol Eglwysig, o logo'r esgobaeth wrth y fynedfa i'r groes (o un o'r ysgolion blaenorol) yn y cyntedd. Mae dysgwyr a staff yn gallu siarad am y rhesymau pam eu bod yn teimlo bod y nodweddion hyn yn bwysig. Ym mhob dosbarth, mae canolbwynt gyda channwyll a Beiblau. Caiff y rhain eu defnyddio ar gyfer gweddïo amser cinio ac ar ddiwedd y dydd. Mae ystafell weddi benodol sy'n cynnwys adnoddau, ac sy'n cael ei gwerthfawrogi a'i defnyddio.

Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Trallwng yn ysgol sydd wedi dysgu a myfyrio ar yr hyn y mae'n ei olygu i fod yn ysgol Eglwysig. Mae wedi gwneud hynny mewn ffordd sy'n driw i'w chymuned ac yn un sydd o fudd i holl aelodau ei chymuned, yn enwedig y dysgwyr.

Cryfderau sefydledig

- Mae'r berthynas rhwng yr eglwys leol a'r ysgol ar bob lefel, gan gynnwys o fewn Addoli ar y Cyd, Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM), llywodraethiant a gofal bugeiliol yn ganmoladwy.

- Mae gwerthoedd Cristnogol yn cael eu cyfathrebu'n glir, eu modelu'n gyson a'u dathlu'n weithredol gan bob aelod o gymuned yr ysgol, gan sicrhau eu bod wedi'u gwreiddio ym mywyd bob dydd yr ysgol.

- Mae datblygiad ysbrydol yn llinyn aur ar draws bywyd yr ysgol. Mae dysgwyr yn cael cyfleoedd rheolaidd i weddïo, myfyrio ac addoli, ochr yn ochr â phrofiadau sy'n eu hannog i archwilio cwestiynau am ystyr, pwrpas a chred. Gwneir hyn mewn ffordd gynhwysol ac yn gyson â chyd-destun y gymuned leol y mae'r ysgol yn ei gwasanaethu.

Argymhellion

- Datblygu'r ardal awyr agored fel lle ar gyfer gweddïo a myfyrio er mwyn cyfuno myfyrdod ysbrydol â dysgu awyr agored yn ei holl ffurfiau.
- Sicrhau bod CGM yn parhau i gael ei ymgorffori mewn profiadau dysgu trawsgwricwlaidd, gan barhau i alluogi dysgwyr i archwilio cysyniadau crefyddol a moesegol ar draws ystod o bynciau.
- Gweithio gyda'r Esgobaeth i sicrhau bod cynllunio olyniaeth cadarn ar gyfer llywodraethwyr Sefydledig.

Mae'r ysgol, trwy ei chymeriad Cristnogol unigryw, yn diwallu anghenion pob dysgwyr gan gynnwys cyfraniad Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg i Gymeriad Cristnogol yr ysgol

Mae taith yr ysgol dros y blynyddoedd diwethaf yn un sy'n cael ei dathlu ar draws yr ysgol. Mae'n stori am uno sydd wedi arwain at ysgol Eglwysig hyderus. Mae llawer o barch at hanes unigol yr ysgolion blaenorol gydag arwyddluniau'r ysgolion wedi'u hymgorffori yn arwyddlun Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Trallwng. Mae arweinwyr a rheolwyr yr ysgol wedi gweithio'n galed i sefydlu cymuned newydd sydd wedi'i gwreiddio yn y gymuned leol ac mewn gwerthoedd Cristnogol. Mae ymrwymiad cyson yr eglwys blwyf leol a'i chlerigwyr wedi bod yn elfen bwysig i sefydlu'r gwerthoedd. Gwelir hyn ar draws yr ysgol mewn CGM a rheolaeth, mewn addoli ar y cyd, yn ogystal ag ym mhresenoldeb ymroddedig clerigwyr lleol yn y rhan fwyaf o agweddau ar fywyd yr ysgol.

Mae'r cydlynydd CGM yn siarad yn gynnes am fewnbwn y ficer lleol a'i dîm i'r pwnc, er enghraifft drwy ddarparu deunydd a chefnogaeth i bynciau Beiblaidd, e.e. stori Moses. Mae'r berthynas rhwng yr ysgol a'r eglwys yn ddigon hyderus i'r ysgol ofyn am gefnogaeth ac ar adegau i'r eglwys gynnig cefnogaeth. Enghraifft o'r ail elfen hon oedd y Prosiect Bara diweddar a oedd yn cynnwys ysgolion eglwysig eraill a helpodd i atgyfnerthu dealltwriaeth dysgwyr o arwyddocâd bara o fewn y ffydd Gristnogol a'i bwysigrwydd mewn addysgu ac addoli Beiblaidd. Disgrifir y cysylltiad rhwng CGM a'r eglwys fel rhywbeth sy'n cynnig 'profiad bywyd dilys o Gristnogaeth'.

Mae CGM wedi'i ymgorffori ym mywyd yr ysgol. Roedd sawl enghraifft ragorol o ddefnydd creadigol o'r pwnc yn ystod y dydd. Roedd un dosbarth yn edrych ar Barabl y Samariad Trugarog, a arweiniodd at drafodaeth am gwestiynau dwfn ynglŷn â beth yw caredigrwydd a sgwrs am yr hyn y gallem ei ddweud am Iesu. Roedd dysgwyr a staff yn gyfforddus ac wedi'u hymddiddori gan faterion y pwnc. Gwelwyd enghraifft arall yn y darlun arloesol o Darian Heddwch, lle roedd yr arwyddluniau y cafodd dysgwyr eu hannog i'w defnyddio wedi'u cysylltu'n glir â gwerthoedd yr ysgol. Mae dysgwyr yn gallu gwneud cysylltiadau o'r fath, er enghraifft: cyfeillgarwch, cariad, cydraddoldeb, caredigrwydd, a dyfalbarhad, a hynny dro ar ôl tro a chyda pharodrwydd. Mae hyn yn dangos pa mor ddwfn mae gwerthoedd yr ysgol wedi'u gwreiddio ar draws bywyd yr ysgol.

Mae'r defnydd o jariau gwerthoedd wedi dod yn ffordd bwysig i'r ysgol ddathlu ei hethos a'i gweledigaeth. Pan fydd dysgwyr yn arddangos nodwedd benodol, er

enghraifft, amynedd neu ddiolchgarwch, caiff gem ei rhoi yn y jar. Unwaith y bydd jar yn llawn, derbynnir gwobr i'r ysgol gyfan sy'n briodol i'r gwerth. Mae staff a dysgwyr yn cytuno bod y gwerthoedd 'yn cael eu byw'. Mae arweinwyr addoli yn gallu gwneud y cysylltiad rhwng gwerthoedd ac ethos Cristnogol yr ysgol.

Mae parodrwydd i archwilio rhyfeddod wrth galon yr ysgol. Mae hyn yn amlwg yn y dulliau addysgu creadigol, y defnydd o dir yr ysgol ar gyfer addysgu yn ogystal â thrwy chwarae, gweddïo ac addoli. Trwy bob agwedd ar yr ysgol, mae agoredrwydd a chynhwysiant. Mae rhieni'n cadarnhau bod croeso i bobl o bob ffydd a dim ffydd ym mywyd yr ysgol a'u bod yn gallu cofleidio gwerthoedd yr ysgol fel eu gwerthoedd eu hunain. Mae ffydd yn cael ei pharchu a'i gwerthfawrogi. Mae'r ysgol wedi bod ar daith ac yn parhau i fod arni. Mae'r eglwysi lleol wedi bod yn bartner parchus a hael ar y daith honno. Mae parch pawb sy'n gysylltiedig yn amlwg ac yn llawn diolchgarwch.

Effaith addoli ar y cyd ar gymuned yr ysgol

Mae addoli ar y cyd yn rhan annatod o fywyd yr ysgol. Mae arweinwyr addoli yn cael eu hethol o bob grŵp blwyddyn. Maent yn amlwg yn llysgenhadon brwdfrydig, ymroddedig ar gyfer lle addoli ar y cyd ym mywyd yr ysgol. Maent yn cyflwyno litwrgi priodol ar ddechrau a diwedd pob gweithred o addoli, boed yn y neuadd, yn y dosbarth neu yn yr eglwys leol. O sylwadau a wnaed gan ddysgwyr eraill, gwerthfawrogir eu rôl yn fawr iawn.

Mae'r patrwm wythnosol o addoli wedi'i ystyried yn ofalus ac yn effeithiol gydag addoli yn cael ei arwain gan y pennaeth a staff eraill, clerigwyr lleol, a'r tîm 'Open the Book'. Mae addoli ar y cyd a gynhelir trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei werthfawrogi. Mae dysgwyr yn gwerthfawrogi'r gwahanol ffyrdd y cynigir addoli. Bob wythnos rhoddir cyfle i ddosbarth gwahanol ymateb yn y foment i effaith y weithred addoli trwy roi gem mewn jar. Mae addoli ar y cyd yn cael ei werthuso gan dîm bach o staff gyda mewnbwn gan yr arweinwyr addoli ac yn ychwanegol drwy arolwg blynyddol y mae rhieni yn ei gwblhau. Mae'r ysgol wedi ymrwymo i wella'n barhaus y ffordd y caiff addoli ar y cyd ei fonitro a sicrhau bod yr hyn sy'n cael ei gynnig yn gynhwysol, yn wahoddiadol, yn heriol ac yn ysgogol.

Roedd y weithred o addoli ar y cyd a gynhaliwyd yn ystod yr arolygiad yn llawen, yn rhyngweithiol ac yn ddengar, gan ennyn chwilfrydedd naturiol y plant. Roedd llawer o chwerthin ond eto roedd hynny mewn awyrgylch o barch tawel. Cafodd adnodau o'r Beibl eu cysylltu'n briodol, gyda heriau penodol. Roedd dysgwyr yn hyderus yn ymuno yn y canu a rhannu ymatebion litwrgaidd yn rhwydd. Mae un o eiriau gweledigaeth yr ysgol, sef 'darganfod', yn cysylltu'n dda â'r ymdeimlad o ryfeddod y mae addoli ar y cyd i'w weld yn ei ennyn. Mae llawer o ddysgwyr yn gallu siarad yn hyderus am yr hyn y maen nhw wedi'i ddysgu yn y gwasanaeth y tu hwnt i allu sôn am yr hyn y maen nhw'n ei fwynhau. Mae ffydd yn rhywbeth sy'n bwnc trafod yn y dosbarth ac yn ystod amser egwyl.

Mae hyn yn rhywbeth sy'n cael ei ymestyn allan i'r gymuned ehangach. 'Mae modd adnabod clerigwyr yn syth yn yr eglwys ac yn y dref'. Mae hyn yn annog plethiad rhwng yr ysgol a'r eglwys, ac mae rhieni, hyd yn oed y rhai nad ydynt o gefndir ffydd, yn barod i gefnogi rhai o weithgareddau'r eglwys. Mae sawl aelod o staff hefyd yn sôn am gael eu hadnabod yn lleol. Mae'r ymrwymiad dwfn hwn yn y

gymuned leol ac ati'n cael ei gydnabod gan rieni a gofalwyr. Fel y dywed un aelod o staff, mae'r eglwys yno ar gyfer taith bywyd. Mae'r bartneriaeth rhwng yr ysgol a'r eglwys wedi bod yn sylfaenol i greu ysgol Eglwysig newydd, ac mae addoli ar y cyd wedi chwarae rhan bwysig yn y broses hon.

Effeithiolrwydd arweinyddiaeth yr ysgol fel ysgol eglwysig

Mae gwerthoedd yr ysgol yn cael eu byw a'u modelu gan y pennaeth a'i thîm. Maent yn cael eu rhannu â rhanddeiliaid allweddol. Mae dysgwyr yn siarad yn hyderus amdanynt ac mae'r rhan fwyaf o rieni a gofalwyr yn eu cofleidio. Mae'r gwerthoedd yn cael eu gwerthuso'n flynyddol.

Mae'r pennaeth yn arwain gyda gonestrwydd ac agoredrwydd, ac yn ei harweinyddiaeth, mae'n annog staff a dysgwyr i ffynnu. Mae hon yn ymagwedd sy'n cael ei chofleidio gan yr ysgol gyfan. Nododd athro cyflenwi mor groesawgar oedd yr ysgol fel lle i weithio. Gall rhieni a gofalwyr ddweud bod 'dim byd yn ormod o drafferth' i'r ysgol ac maent yn canmol gwaith y tîm bugeiliol. Gall dysgwyr, staff, rhieni a llywodraethwyr gysylltu'r gefnogaeth a'r gofal mae'r ysgol yn eu cynnig i'r gwerthoedd Cristnogol. Mae'r eglwys leol yn bartner sylweddol am ddarparu gofal bugeiliol drwy foreau coffi, clybiau, a chydweithio drwy ddarparu basgedi bwyd ar adegau penodol o'r flwyddyn. Mae rhieni a gofalwyr yn siarad yn gynnes am gyfranogiad y 'Parchedig', ac yn eu tro maent yn hapus i ymgysylltu â gweithgareddau'r eglwys ni waeth beth yw eu safbwynt ffydd. Mae hyn yn ategu'r ffaith bod yr ysgol yn darparu lle ar gyfer trafod ffydd yn agored ac yn gynhwysol, lle caiff gwahaniaeth ei gofleidio.

Mae dysgu proffesiynol a datblygu arweinyddiaeth yn cael eu blaenoriaethu ar draws yr ysgol, gan gryfhau arbenigedd staff ac ategu cynllunio olyniaeth effeithiol. Mae'r ymrwymiad hwn yn cael ei ddangos trwy gyfranogiad y Pennaeth yn y Rhaglen Arweinwyr sy'n Ffynnu (*Flourishing Leaders*) a datblygiad proffesiynol parhaus yr arweinwyr CGM. Mae'r Esgobaeth yn darparu cefnogaeth gref ar gyfer addoli ar y cyd, CGM, llywodraethu, ac ethos. Mae'r ysgol wedi ymrwymo i fod yn rhan o raglen beilot sy'n cysylltu addoli ar y cyd â'r llithiadur wythnosol.

Mae llywodraethwyr Sefydledig yn deall eu rôl yn dda ac yn cynnig her a chefnogaeth gref i'r ysgol. Mae gan lywodraethwyr ystod eang o gyfleoedd i fod yn rhan o fywyd yr ysgol. Mae'r corff llywodraethu yn amlwg yn gweithio'n dda fel tîm. Maent yn ymwybodol o'r daith y mae'r ysgol wedi bod arni ac yn falch o'u rhan yn ei llwyddiant.

Sbotolau

Partneriaeth Effeithiol rhwng yr Eglwys a'r Ysgol

Mae'r berthynas rhwng yr ysgol a'i heglwys leol yn rhagorol ac yn sefyll fel cryfder nodedig o gymeriad Cristnogol yr ysgol. Mae ymdeimlad dwfn o falchder dwy ffordd ac ymrwymiad cyffredin, gyda'r ysgol yn gwerthfawrogi ei hunaniaeth fel ysgol yr Eglwys yng Nghymru a'r eglwys yn dangos buddsoddiad diwyro ym mywyd yr ysgol a'r gymuned ehangach.

Mae cyfraniad y ficer a'r eglwys leol yn ymestyn ymhell y tu hwnt i addoli ar y cyd a llywodraethu. Wedi'u gwreiddio mewn ymrwymiad cryf i weinidogaeth y plwyf, mae clerigwyr a chynrychiolwyr eglwysig yn bresenoldeb gweladwy, croesawgar a dibynadwy yn yr ysgol a'r gymuned. Mae'r ymgysylltiad gwirioneddol hwn wedi meithrin perthnasoedd a nodweddir gan agoredrwydd, ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr.

Mae'r bartneriaeth yn arbennig o gydfuddiannol. O ddechrau taith yr ysgol tuag at ddod yn un ysgol mewn un adeilad, chwaraeodd yr eglwys ran sylweddol wrth greu ymdeimlad o berthyn a phwrpas cyffredin. Bu i gyfarfodydd staff yn Neuadd Eglwys y Santes Fair ar gyfer gwaith datblygu cynnar osod y naws ar gyfer partneriaeth sy'n seiliedig ar gydweithredu ac ymddiriedaeth. Mae'r ysbryd hwn yn parhau i dreiddio drwy bob agwedd ar fywyd yr ysgol, gan gynnwys Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM), addoli ar y cyd, llywodraethu ac ymgysylltu â'r gymuned. Mae mentrau dan arweiniad yr eglwys a rhai dan arweiniad yr ysgol fel ei gilydd yn dangos ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda'i gilydd er budd plant, teuluoedd a'r gymuned ehangach.

Er bod gan yr eglwys a'r ysgol eu cenhadaeth neilltuol o hyd, mae'r bartneriaeth yn galluogi pob un i ffynnu. Gyda'i gilydd, maent wedi creu ymdeimlad cryf o *Cynefin* lle mae dysgwyr, staff, rhieni, gofalwyr ac aelodau o'r gymuned yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu, eu gwerthfawrogi a'u cysylltu. Mae yna deimlad amlwg bod y ddwy gymuned 'gartref' gyda'i gilydd mewn cytgord.

Mae'r bartneriaeth hon yn cynnig enghraifft bwerus o ymarfer effeithiol y gallai clerigwyr, arweinwyr esgobaethol ac arweinwyr ysgolion ledled Cymru ddysgu wrthi. Yn arwyddocaol, mae ei lwyddiant yn cael ei ategu gan ostyngeiddrwydd y sawl sy'n gysylltiedig. Nid yw cyflawniadau'r eglwys na'r ysgol wedi deillio o uchelgais strategol yn unig, ond o berthnasoedd sydd wedi'u hadeiladu ar onestrwydd, bregusrwydd, agoredrwydd a gwerthoedd Cristnogol dwfn. O ganlyniad, mae'r bartneriaeth yn darparu model grymus o sut y gall eglwys ac ysgol weithio gyda'i gilydd i gyfoethogi bywydau plant a gwasanaethu eu cymuned.

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofyniad statudol ar gyfer gweithredoedd addoli ar y cyd	**Ydw**
Mae'r ysgol yn bodloni'r gofyniad statudol ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg (lle caiff hyn ei arolygu)	**Amherthnasol**
Mae crefydd, gwerthoedd a moeseg yn wrthrychol, yn feirniadol ac yn blwraliaethol	**Ydw**